Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda Zoom nos Lun, 22 Chwefror 2021 am 7:00pm.

PRESENNOL: Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts a Mike van der Eijk.
Y Cynghorwyr Sir Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.

54. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ifan Wyn a'r Cynghorydd Sir Bobby Feeley.

55. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorwyr Jim Bryan ac Anne Roberts ddatgan budd personol yn Eitem 14 – Cais am Gymorth Ariannol – Pwyllgor Adfer Cloc y Dref.

56. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi mynychu'r cyfarfodydd isod:

15.01 Cyfarfod gyda Beicio Cymru ynghylch y Felodrom trwy gyfrwng Zoom
18.01 Plymwr yn yr Hen Lys
27.01 Cyfarfod gyda Rheolwr yr Hen Lys ynghylch yr arddangosfa fanwerthu
02.02 Cyfarfod Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys
04.02 Cyfarfod gyda Jamie Groves, Hamdden Sir Ddinbych Cyf, ynghylch y Felodrom
09.02 Cyfarfod Partneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych
11.02 Cyfarfod gyda'r Clerc, y Dirprwy Faer a'r darpar Ddirprwy Faer ynghylch y cyfryngau cymdeithasol
Gosod ffitiadau'r arddangosfa fanwerthu yn yr Hen Lys gyda'r Cynghorydd Jim Bryan a Rob Price
13.02 Gosod ffitiadau'r arddangosfa fanwerthu yn yr Hen Lys gyda'r Cynghorydd Jim Bryan a Rob Price
15.02 Cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Technoleg Gwybodaeth trwy gyfrwng Zoom.

57. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Cyfarfodydd y Grŵp Cymorth Llifogydd, cyfarfod Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys, cyfarfod Partneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych, cyfarfod ynghylch y cyfryngau cymdeithasol gyda'r Clerc, y Maer a'r darpar Ddirprwy Faer a chyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Technoleg Gwybodaeth.
Cyng. Stephen Beach	Dim i'w adrodd.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys a chyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun.
Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd.
Cyng. John Wynne Hughes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Menna Jones	Aelod o banel penodi'r Llywodraethwyr yn cynnal cyfweliadau dros ddeuddydd i benodi Dirprwy Bennaeth newydd yn Ysgol Pen Barras, cyfarfod ynghylch y cyfryngau cymdeithasol gyda'r Clerc, y Maer a'r Dirprwy Faer a chyfarfodydd y Grŵp Cymorth Llifogydd trwy gyfrwng Zoom.

Cyng. Ian Lewney	Cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Technoleg Gwybodaeth.
Cyng. Jabez Oakes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Pedair sesiwn gyda'r Banc Bwyd.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Blynyddol Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun, sesiwynau Stori Rhuthun – Ysgol Borthyn, cyfarfodydd y Grŵp Cymorth Llifogydd, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a chyfarfod Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys.
Cyng. Mike van der Eijk	Dim i'w adrodd.
Cyng. Ifan Wyn	Cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Technoleg Gwybodaeth.

58. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Darparodd y Cynghorwyr Sir Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne adroddiadau ar lafar, yn cyfeirio at y mesurau atal llifogydd dros dro a gyflwynwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yng Nghae Ddôl a bod yr ymchwiliadau i'r allyriadau o safleoedd diwydiannol yn Lôn Gwernydd yn parhaus ac y dylai unrhyw un â phryderon am lygredd posibl hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru am hynny.

59. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2021 yn gofnodion cywir.*

60. MATERION YN CODI

Cadarnhaodd y Clerc fod cyfrif banc Cronfa Lleddfu Llifogydd wedi'i agor fel cyfrif ar wahân yn gysylltiedig gyda chyfrifon y Cyngor Tref sy'n bodoli eisoes, ac y derbyniwyd dros £1,000 mewn cyfraniadau eisoes. Roedd manylion cod didoli a rhif y cyfrif banc ar gael ar dudalen hafan gwefan y Cyngor Tref.

61. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2021.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2021.*

62. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2021.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2021.*

63. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2021.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2021.*

64. SEDDI GWAG AR Y CYNGOR TREF

Hysbyswyd yr aelodau fod may na 10 o etholwyr Rhuthun wedi gofyn am gynnal etholiad i lenwi'r ddwy sedd wag ar y Cyngor Tref. Byddai'r Hysbysiad Etholiad yn cael ei gyhoeddi ar 1 Mawrth a byddai gan ymgeiswyr tan 17 Mawrth i gyflwyno enwebiadau. Os cyflwynir dau enwebiad yn unig byddent yn cael eu hethol yn ddiwrthwynebiad petai mwy na dau ymgeisydd yna'r bwriad fyddai cynnal yr etholiad ar 15 Ebrill. Y gost isafswm fyddai £6,704.03 a allai gynyddu petai nifer fawr o ymgeiswyr. Gofynnodd aelod, petai etholiad yn cael ei gynnal, fod yr aelodau'n cael gweld yr asesiad risg wedi'i lunio ar gyfer defnyddio'r Hen Lys fel gorsaf bleidleisio ymhell ymlaen llaw.
PENDERFYNWYD*: nodi'r wybodaeth a gofyn am gopi o'r asesiad risg os cadarnheir y cynhelir*

etholiad yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau.

65. AELODAETH UN LLAIS CYMRU 2021-22

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried Cyngor Tref Rhuthun yn dod yn aelod o Un Llais Cymru, sy'n cynnig modiwlau hyfforddiant, cynnwys y Cyngor yn holl ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a chyngor cyfreithiol i'r Clerc a Chadeirydd y cyngor. Cynigiwyd gostyngiad 50% am aelodaeth y flwyddyn gyntaf, yn golygu pris o £467.00.

PENDERFYNWYD*: ymaelodau gydag Un Llais Cymru ar gost o £467.00 ac adolygu'r statws aelodau ymhen 12 mis.*

66. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am £500.00 gan Bwyllgor Adfer Cloc y Dref tuag at gam cyntaf y prosiect, i gynnwys ymgynghori gyda'r cyhoedd ynghylch y cynlluniau arfaethedig i sicrhau cadwraeth cloc coffa Peers. Cynigiwyd ac eiliwyd rhoi'r cymorth ariannol a chefnogwyd hyn gan yr holl aelodau.

PENDERFYNWYD*: darparu cymorth ariannol o £500.00 i Bwyllgor Adfer Cloc Tref Rhuthun.*

67. CYLLID GRANT CANOL TREFI COVID-19

Roedd yr aelodau wedi derbyn gwybodaeth am y seddi a'r arwyddion arfaethedig yn nifer o leoliadau yn y dref. Holodd yr aelodau a ymgynghorwyr gyda pherchnogion busnes ger y lleoliadau arfaethedig a chadarnhawyd y cysylltwcy gyda nhw i fynegi eu barn. Mynegodd rhaid aelodau bryderon ynghylch lleoliad arfaethedig sedd wrth fwyta'r Ocean Pearl ac awgrymwyd y byddai wrth yr Hen Garchar yn well. Ystyriodd yr aelodau'r prisiau gan wahanol gwmnïau ar gyfer y seddi a'r mynegbyst.

PENDERFYNWYD*: derbyn y prisiau am y seddi gan Broxap a'r arwyddion gan Standard Signs.*

68. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chadarnhau Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD*: cadarnhau'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol ar gyfer 2021.*

69. ASESIAD RISG BLYNYDDOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chadarnhau'r Asesiad Risg Flynyddol. Dywedodd y Clerc fod Tŵr Cloc Cofeb Peers wedi'i dynnu o'r rhestr asedau â pherchnogaeth anhysbys gan y derbyniwyd cadarnhad mai Cyngor Sir Ddinbych sy'n berchen ar y strwythur. Cyfeiriodd aelod at y Parc Sglefrfyrddio ac awgrymodd newid y lefel risg o ganolig i uchel oherwydd y llifogydd diweddar yng Nghae Ddôl.

PENDERFYNWYD*: cadarnhau'r Asesiad Risg blynyddol yn ddarostyngedig i newid lefel risg y Parc Sglefrfyrddio i Uchel.*

70. CYNGOR ARBENIGOL YNGHYLCH TRETH AR WERTH

Dywedodd y Clerc y byddai cyngor arbenigol ynghylch TAW yn costio £1,500 + TAW, sy'n bris disgwyliedig am wasanaeth o'r fath, er mwyn ystyried y sefyllfa TAW o ran yr Hen Lys. Roedd yr archwilydd mewnol wedi argymell cael cyngor ynghylch hyn. Awgrymodd yr aelodau ofyn i Un Llais Cymru'n gyntaf a fyddai'n medru darparu'r cyngor hwn cyn trefnu cyngor gan arbenigwr allanol. Roeddynt oll yn cytuno gyda'r egwyddor o gael y cyngor hwn i sicrhau fod yr hyn a gynigir a'r ffioedd a godir yn yr Hen Lys yn gywir o'r dechrau.

PENDERFYNWYD*: cysylltu gydag Un Llais Cymru ynghylch darpariaeth cyngor arbenigol ynghylch Treth ar Werth yng nghyswllt yr Hen Lys cy nagor y cyfleuster cymunedol.*

71. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y Cynllun Archwilio Mewnol gan JDH Business Services Ltd ar gyfer 2020-21.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y Cynllun Archwilio Mewnol gan JDH Business Services Ltd ar gyfer 2020-21.*

72. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Hysbysodd y Clerc yr aelodau fod Swyddfa Archwilio wedi cysylltu gyda'r Cyngor Tref i ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch prynu'r Hen Lys.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r wybodaeth a darparu'r holl fanylion y gofynnwyd amdanynt.*

73. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ionawr 2021.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ionawr 2021.*

74. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

BA	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – Ionawr a Chwefror 2021	*	£180.00
BA	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol – Chwefror		£560.03
BA	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres a thanysgrifiad Sage – Chwefror	*	£92.40
BA	IT Williams Co Ltd	Llogi pedair sgip 5 tunnell ar gyfer gwastraff cymysg o gartrefi – Stryd Clwyd / Stryd y Felin	*	£1,632.00

O gyfrif Yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

BA	BT Business	Ffôn Cwmwl a gwasanaeth band eang	*	£67.19
BA	Snowdonia Fire & Security	Cynnal a chadw'r system larwm tân	*	£66.00
BA	Book of You CIC	Gweithgareddau hel atgofion wedi'u hwyluso		£2,000.00

75. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 22 Mawrth 2021, am 7pm.*